***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1840

# Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety) (Cymru) 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2016 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

ystyr "llety cartref gofal" ("*care home accommodation*") yw—

(a) llety mewn cartref gofal o fewn yr ystyr a roddir i "care home" gan adran 3 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) pan fo'r llety yng Nghymru neu Loegr;

(b) llety mewn gwasanaeth cartref gofal o fewn yr ystyr a roddir i "care home service" gan baragraff 2 o Atodlen 12 i Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Yr Alban) 2010(**2**) pan fo'r llety yn yr Alban; neu

(c) llety mewn cartref gofal preswyl o fewn yr ystyr a roddir i "residential care home" gan erthygl 10 o Orchymyn Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Personol (Ansawdd, Gwella a Rheoleiddio) (Gogledd Iwerddon) 2003(**3**) pan fo'r llety yng Ngogledd Iwerddon;

ystyr "llety sy'n cael ei ffafrio" ("*preferred accommodation*") yw'r llety y mae person y mae'r llety i'w ddarparu iddo wedi mynegi ei fod yn ei ffafrio yn unol â rheoliad 2(b).

(**1**) 2000 p. 14. Diwygiwyd adran 3 gan adran 95 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14) a pharagraff 4 o Atodlen 5 i'r Ddeddf honno.

(**2**) 2010 dsa 8.

(**3**) O.S. 2003/431 (G.I. 9).